**ATODIAD 1**

## AMSERLEN DDIWYGIEDIG STRATEGAETH SGILIAU IEITHYDDOL CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol i'r Is-Bwyllgor Iaith ar 11/10/11, a chytunwyd ar y camau a amlinellwyd.

Yn anffodus, ers hynny, bu peth llithriad yn yr amserlen. Un rheswm am hyn yw'r trafferthion sydd wedi bod gyda mabwysiadu system integredig ar gyfer cyflogau ac adnoddau dynol, ond gallwn gadarnhau fod gweddill y gwaith bellach yn bwrw mlaen, a gallwn grynhoi'r sefyllfa a'r amserlen fel a ganlyn yn unol ag Amcanion a'r Gweithredoedd a nodir yn y Strategaeth:

| **AMCAN 1**<br>Adolygu ein trefniadau pennu sgiliau iaith ar gyfer swyddi |
|---|

| **GWEITHRED** | **AMSERLEN DDIWYGIEDIG** |
|---|---|
| Adolygu Fframwaith Iaith y Cyngor | Y Fframwaith wedi'i hadolygu ac yn barod i'w mabwysiadu gan Adrannau'r Cyngor |

---

| **AMCAN 2**<br>Sicrhau lefel iaith addas ar gyfer pob swydd ar sail y trefniadau pennu sgiliau iaith ar gyfer swyddi |
|---|

| **GWEITHRED** | **AMSERLEN DDIWYGIEDIG** |
|---|---|
| Creu canllawiau ar gyfer adnabod lefelau iaith swyddi | Amserlen i'w phennu ar gyfer y weithred yma |
| Mapio anghenion sgiliau iaith pob swydd drwy ddefnyddio'r Fframwaith Sgiliau Iaith | Bydd y Fframwaith newydd yn cael ei chyflwyno yn ystod 2013, a bydd y mapio'n digwydd fel rhan o'r broses yma |

---

| **AMCAN 3** |
| --- |
| Sicrhau lefel iaith addas ar gyfer pob swydd ar sail y trefniadau pennu sgiliau iaith ar gyfer swyddi |

| GWEITHRED | AMSERLEN DDIWYGIEDIG |
| --- | --- |
| Mapio gallu ieithyddol presennol staff | Bydd hyn yn digwydd fel rhan o'r broses o gyflwyno'r Fframwaith Sgiliau Iaith yn ystod 2013 |
| Cymharu gallu gydag anghenion sgiliau ac adnabod bwlch hyfforddi | Dechrau ar y broses yn dilyn cyflwyno'r Fframwaith Sgiliau Iaith a'r broses fapio |

Nodir yn ogystal dan yr Amcan yma, yr angen i sefydlu cronfa ddata addas ar gyfer cofnodi gwybodaeth am lefelau iaith swyddi a staff:

| GWEITHRED | AMSERLEN DDIWYGIEDIG |
| --- | --- |
| Sicrhau cronfa ddata addas ar gyfer cofnodi sgiliau iaith staff | Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y system mewn lle ym Mawrth 2014 |
| Adolygu systemau a phrosesau perthnasol a chyflwyno rhai newydd lle'n addas er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ieithyddol yn gyfredol | Yn dilyn sefydlu'r system cyflogau ac adnoddau dynol |

---

| **AMCAN 4** |
| --- |
| Darparu hyfforddiant addas er mwyn llenwi'r bwlch rhwng lefel iaith y swydd a lefel yr unigolyn sydd yn y swydd |

Noder bod cynllun hyfforddiant iaith Gymraeg cynhwysfawr mewn lle yn barod gan yr Adran Adnoddau Dynol i gwrdd â'r nod presennol. A bydd y ddarpariaeth yma'n parhau yn y cyfamser

| **GWEITHRED** | **AMSERLEN DDIWYGIEDIG** |
|---|---|
| Mabwysiadu cynllun gweithredu sy’n ateb gofynion y bwlch hyfforddi sydd wedi ei adnabod | Mabwysiadu cynllun wedi cwblhau'r broses mapio a mabwysiadu system gyfrifiadurol cyflogau ac adnoddau dynol |
| Parhau i ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg i gwrdd ag anghenion presennol | Y broses yn weithredol ac yn parhau |